| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **28 Medi 2012** |
| TEITL: | **CYNHADLEDD BUDDSODDI'R LGC, 5-7 MEDI 2012 "Chwilio'n Obeithiol am Dwf"** |
| PWRPAS: | **Hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r budd a gafwyd o fynychu'r gynhadledd** |
| AWDUR: | **Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

Unwaith eto eleni, cynhaliwyd cynhadledd 'Copa Buddsoddi'r LGC' yn Celtic Manor, Casnewydd, a'i fynychwyd gan y Cynghorydd Trefor Edwards, y Cynghorydd Stephen Churchman, a Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid.

Pwysleisiodd Cadeirydd y gynhadledd fod y trafodaethau o dan "Chatham House Rules", felly mae'r nodiadau canlynol yn gryno, neu heb eu priodoli i siaradwyr penodol.

## 2. TWF YN YR ECONOMI A'R MARCHNADOEDD

Yn y sesiwn agoriadol, rhoddodd Joshua McCallum, Uwch Ddadansoddwr Ymchwilio (Economeg), o UBS ystyriaeth i effaith yr economi ar gronfeydd pensiwn, gan nodi fod ymyrraeth llywodraethau (argraffu mwy o bres yn obeithiol) heb gael llawer o effaith mewn economïau datblygedig, ond fod cyfleon yn bodoli mewn marchnadoedd sy'n ymgodi.

## 3. DYFODOL Y CPLlL

Rhoddodd Bob Holloway, Pennaeth Pensiynau yn y "DCLG", gyflwyniad gofalus ar ddatblygiad y Cynllun newydd, Cofrestru Awtomatig, a'u heffaith ar aelodaeth a diffygion cronfeydd.

Roedd Terry Crossley, cyn-bennaeth yn y "DCLG", hefyd yn mynychu'r gynhadledd a darparodd ef olwg diddorol mewn sgwrs anffurfiol.

## 4. ARBED COSTAU, CYDWEITHIO A CHYFUNO GWEITHREDU

Cafwyd sesiwn gyda phanel o gynrychiolwyr 3 cronfa roedd wedi ystyried amrywiol ddulliau o gydweithio. Roedd syniadau'r panel braidd yn gyfyngedig a'r gynulleidfa'n feirniadol o'u ffocws ar arbed costau (o gofio fod costau ddim yn sylweddol iawn yng nghyd-destun gwerth cronfeydd a'u dychweliadau).

Y datblygiad cyfredol mwyaf cadarn oedd ymdrech ar y cyd gan 7 cronfa (Croydon, Norfolk, Buckinghamshire, Cambridgeshire, Derbyshire, Lincolnshire a Northamptonshire) i chwilio am ymgynghorwyr actiwaraidd, ymgynghorwyr buddsoddi, a gwasanaeth gwarchod trwy broses tendro arbennig.

Roedd Nicola Mark (Norfolk) a Nathan Elvery (Croydon) ar y panel ac yn awgrymu dylai cronfeydd eraill ymuno yn eu menter gyda'r cytundebau fframwaith. Gallasai Cronfa Gwynedd ddefnyddio'r rhain yn y dyfodol er mwyn arbed amser yn ogystal â chostau.

## 5. ECWITI BYD EANG

Ymysg y siaradwyr yn trafod ecwitïau oedd ein hen gyfaill Martyn Hole o Capital International.

Roedd ymweliad cynrychiolwyr y Gronfa i stafell gyflwyno Capital yn gyfle i drwsio ein perthynas gyda Martyn fel unigolyn, er roedd amseriad y gynhadledd yn anffodus ac anodd braidd, ymhellach i'n penderfyniadau diweddar iawn ynghylch Capital ac UBS.

Er gwaetha'r "ddegawd coll", ddaru'r sesiwn ar ecwiti gyrraedd casgliad fod y categori hwnnw o asedau yn parhau'n "addas i bwrpas", ond gallasai gwell dychweliadau fod ar gael mewn marchnadoedd sy'n ymgodi (gan gynnwys Tseina a De America), o'i gymharu â'r economïau traddodiadol datblygedig.

Cawsom ein hatgoffa o hen ddywediad Ffrengig: "Prynwch ar glywed y gynnau, gwerthwch ar glywed y cyrn", a'r gwersi o hynny yw y dylid parhau mewn ecwiti byd-eang, yn arbennig mewn cyfnodau siomedig, sicrhau fod ein buddsoddiadau wedi'u gwasgaru, a chanolbwyntio ar y tymor hir yn hytrach na'r tymor byr anwadal.

## 6. BUDDSODDI MEWN EIDDO

Derbyniwyd cyflwyniad ar y cyd am Eiddo gan arbenigwyr o Schroders ac L&G.

Ymysg y mathau o fuddsoddiad roeddynt yn awgrymu gallasai ddarparu gwell twf oedd "cyfleon oherwydd pwysedd ymhellach i ddigwyddiad", trefniadau "gwerthu a phrydlesu yn ôl", a "partneriaethau incwm".

Ystyriwyd y sector manwerthu (e.e. siopau cyfleus, eiddo arddangos ceir) fel un math o eiddo allasai gynnig cyfle am dwf.

## 7. CYFLEON ERAILL AR GYFER SICRHAU TWF

Ddaru Ronnie Bowie o Hymans Robertson gau'r gynhadledd gyda'i sesiwn adlonianol arferol.

Awgrymodd ef fod gwerth i'w gael trwy ddal ar fuddsoddiadau tan maent wedi aeddfedu, tra mae'r banciau yn gofidio am werth y buddsoddiadau rheiny ar y farchnad, gan fod rheiny wedi'u hadlewyrchu ar werth y farchnad ar fantolen banciau bregus. Roedd Ronnie Bowie yn dadlau fod hyn yn cynnig cyfle i gronfeydd pensiwn sy'n llai pryderus am sefyllfa ei mantolen.

Ymhelaethodd mai'r buddsoddiadau dylai cronfeydd pensiwn chwilio amdanynt yw'r rhai sy'n debygol o roi dychweliadau sefydlog, nid eithriadol.

## 8. RHWYDWEITHIO

Roedd yr amser i drafod yn anffurfiol gyda'r rheolwyr buddsoddi rhwng y sesiynau yn darparu cyfle i sicrhau'r gwir di-flewyn-ar-dafod am berfformiad y cwmnïau a'r rhesymau tu ôl i symudiadau diweddar rhai staff.

Ymhellach, roedd cyfle hefyd i rwydweithio gyda chynrychiolwyr cronfeydd eraill (roedd pob cronfa Gymreig wedi'i gynrychioli) a thrafod eu dewisiadau diweddar a'u strategaethau cyfredol.

## 9. CASGLIAD

Roedd y lleoliad arbennig yma, y Celtic Manor, yn rhoi proffil uchel i'r gynhadledd ac i Gymru unwaith eto. Roedd yn darparu amgylchedd delfrydol ar gyfer cyfarfod, dysgu a gwrando ar ddadleuon gwerthfawr ynglŷn â materion buddsoddi blaengar, a bydd y gynhadledd yn dychwelyd i'r un lleoliad yn 2013.